Emma Hughes
Ysgol Gynradd Waunceirch
Dwr y Felin Road
Waunceirch
Castell-nedd
SA10 7RW

05/06/2025

Annwyl Emma Hughes

**Ymweliad Interim:** Mai 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Waunceirch yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg dynodedig

- Mae arweinwyr a staff wedi creu amgylchedd dysgu a chwricwlwm sy'n cynorthwyo bron pob disgybl i ddatblygu brwdfrydedd dros ddysgu a siarad Cymraeg.
- Mae dysgu proffesiynol buddiol yn dechrau helpu staff i fagu hyder wrth siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o staff yn modelu ystod o ymadroddion Cymraeg sylfaenol. Ar hyn o bryd, nid yw staff bob tro'n manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ymgorffori'r iaith maent yn ei defnyddio mewn gwersi Cymraeg yn eu haddysgu ar draws y cwricwlwm.
- Mae staff yn cynllunio ar sail maes llafur Cymraeg cytûn sy'n sicrhau dilyniant o ran datblygu medrau siarad ar draws yr ysgol. Mae sesiynau ymarfer dyddiol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ruglder disgyblion wrth ofyn ac ateb cwestiynau yn  Gymraeg.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae Criw Cymraeg yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol â staff i ddatblygu ystod gyffrous o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Mae arweinwyr yn monitro agweddau disgyblion at ddysgu Cymraeg trwy wrando ar weithgareddau dysgwyr yn rheolaidd ac yna addasu eu haddysgu'n unol â hynny. Ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr yn monitro addysgu'r Gymraeg yn uniongyrchol i werthuso'r cynnydd mae disgyblion yn ei wneud.

## Gwella presenoldeb disgyblion

- Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau effeithiol i hybu a gwella presenoldeb.
- Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol ac anogol â disgyblion a'u teuluoedd. Maent yn darparu amgylchedd dysgu lle mae disgyblion yn teimlo ymdeimlad cryf o berthyn, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at fwynhad disgyblion o fod yn yr ysgol yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd a'i effaith ar eu dyheadau yn y dyfodol.
- Mae arweinwyr a staff yn deall pwysigrwydd darparu cwricwlwm deniadol ac addasu dulliau addysgu i fodloni anghenion a diddordebau unigol disgyblion. Mae'r dulliau hyn yn effeithiol o ran cynnal a gwella presenoldeb da.
- Mae arweinwyr yn cynnal perthnasoedd gwerthfawr â swyddogion yr awdurdod lleol, sy'n cefnogi'r ysgol i weithio â theuluoedd pan fydd presenoldeb disgyblion yn disgyn islaw lefel dderbyniol.
- Mae arweinwyr yr ysgol yn adolygu effaith prosesau presenoldeb yr ysgol yn rheolaidd, gan ystyried barn disgyblion a'u teuluoedd.
- Ar y cyfan, mae'r ysgol yn sicrhau lefelau presenoldeb da ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol a'r rhai o gartrefi ag incwm isel.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder ac wedi cael eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6712221

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol